Powys
*Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG*

Jeremy Patterson

Prif Weithredwr

Os yn galw gofynnwch am

Stephen Boyd

*Ffôn:* 01597 826374
*Ffôn Symudol:*
*Llythyru Electronig:* steve.boyd@powys.gov.ukl

**CYNGOR SIR**
**Dydd Iau, 24ain Medi, 2020**

---

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

---

# PECYN ATODOL

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 28)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant oddi wrth Aelodau mewn perthynas ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

Derbyn ac ystyried adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
(Tudalennau 29 - 70)

| 8. | BWRDD PENSIYNAU POWYS |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, Aelod Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Chludiant.
(Tudalennau 71 - 86)

| 9. | RHYBUDD O GYNNIG - DATGANIAD O ARGYFWNG HINSAWDD A GALWAD I WEITHREDU AR YNNI LLEOL |
|---|---|

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod adroddiad Panel IPPC ar gynhesu Byd-eang yn rhagfynegi effeithiau difrifol ar iechyd, cartrefi a'r amgylchedd, wrth i lifogydd difrifol Hydref 2019 a Chwefror 202 beryglu cymunedau Powys, a dangos yn eglur nad ydym wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer yr heriau a wynebwn fel Cyngor.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod cynghorau, trwy ddatgan argyfwng hinsawdd, yn dangos eu harweinyddiaeth gyfun ac yn amlygu arwydd o taerineb y maent yn ei harddel fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, ar fynd i'r afael â newid hinsawdd a datgarboneiddio'r economi yn unol â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y bydd y cyngor, trwy gefnogi'r Bil Trydan Lleol, yn symud y rhwystrau i gyflenwi ynni'n lleol a gallent arwain trwy esiampl gan leihau ei ôl-troed carbon corfforaethol trwy ddefnyddi'n stad ffermydd i ddod yn ddarparwr trydan adnewyddadwy lleol, a hefyd cefnogi cymunedau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o leihau eu hôl-troed carbon a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol a buddsoddi ynddynt.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymrwymiad Fay Jones' AS i'r ymdrech drawsbleidiol i sefydlu'r Bil Trydan Lleol yn gyfraith, gan helpu Cynghorau i ysgogi chwyldro ynni lleol sydd â'r potensial i leihau ôl-troed carbon Powys unwaith ac am byth, a dosbarthu'r manteision i gymunedau lleol am byth.

**Mae'r Cyngor hwn felly'n penderfynu:**

1. Ymuno â chynghorau eraill ledled Cymru i ddatgan Argyfwng Hinsawdd

2. Cefnogi rhoi Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) ar waith i wneud Cyngor Sir Powys yn awdurdod carbon sero-net erbyn 2030.

3. Gofyn i'r Arweinydd ystyried aseinio swyddogaethau o fewn y cabinet i arwain ar liniaru Newid Hinsawdd ac ymgysylltu'n weithredol â'r holl aelodau a rhanddeiliaid trwy: A sefydlu gweithgor trawsbleidiol a, B sefydlu grŵp aml-randdeiliaid ar draws Powys i ddatblygu darlun o'r sefyllfa sylfaen @2020 a llunio strategaeth a chynllun gweithredu @2021 ar gyfer Powys wirioneddol gynaliadwy.

4. Cefnogi ein AS i sicrhau bod y Bil Trydan Lleol yn llwyddo mewn Dadl Ohiriedig i alluogi cyflenwi trydan a hwyluso cymunedau mwy cadarn ym Mhowys.

5. Gofyn i Lywodraethau Cymru a'r DU ddarparu'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i alluogi lleihad carbon effeithiol a throsi i'r economi werdd ym Mhowys.

Cynigiwyd gan y Cyng Jake Berriman

Eiliwyd gan y Cyng Jackie Charlton

**Nid yw'r cynnig canlynol i'w drafod oni bai fod y cynnig blaenorol yn methu gan i'r Cynigydd gytuno i dynnu'r cynnig hwn yn ôl os yw'r cynnig blaenorol yn cael ei dderbyn.**

| | |
|---|---|
| **10.** | **RHYBUDD O GYNNIG - GOLLYNGIADAU CARBON** |

Bod y cyngor hwn yn ceisio lleihau ei ollyngiadau carbon i sero-net yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030 a, galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ac adnoddau digonol i allu cyflawni'r targedu yma.

Bod y cyngor hwn, gyda chymorth yr aelod portffolio' priodol, y swyddog newid hinsawdd sydd newydd ei benodi a'r gweithgor newid hinsawdd, yn adeiladu ar y cyflawniadau hyd yma ac yn datblygu strategaeth gweithio a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig i gyflawni'r targed yma.

Bod y cyngor hwn yn adolygu'r holl bolisïau, strategaethau a chynlluniau perthnasol, gan gynnwys ei gynllun corfforaethol a'i gynllun datblygu lleol, i gefnogi cyflawni'r targed yma.

Bod y cyngor hwn, ynghyd â chymorth ac adnoddau priodol gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gyda phartneriaid, awdurdodau lleol eraill a sefydliadau i helpu i ddatblygu a rhoi ar waith yr arferion gwaith gorau i gyfyngu cynhesu byd-eang a rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad o argyfwng hinsawdd.
Bod y cyngor hwn yn hyrwyddo ac yn cyhoeddi arferion gwaith gorau wrth gyfyngu cynhesu byd-eang ac ar yr un pryd yn annog preswylwyr a busnesau i fynd ati i gymryd camau gweithredu eu hunain hefyd i leihau gollyngiadau carbon yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.

Cynigiwyd gan y Cyng Iain McIntosh
Eiliwyd gan y Cyng Lucy Roberts

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG - CARTREFI GWYLIAU |
|---|---|

Mae gan Bowys oddeutu 1262 o gartrefi gwyliau/ail gartrefi o fewn y rhestr Treth y Cyngor sy'n talu'r premiwm presennol o 50%, sy'n cynhyrchu tua £700k.

Yng ngoleuni'r pryder cymdeithasol mawr am effaith niferoedd uchel eiddo o'r fath mewn sawl cymuned, mae'r Cyngor yn galw:

- am gynyddu'r premiwm cyfredol i 75% yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynhyrchu tua £350k i'r awdurdod
- ac am i'r cyngor weithio gydag awdurdodau gwledig eraill trwy CLlLC i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Brisio'n defnyddio dull cyson wrth asesu ceisiadau am Drethi Busnes ar gyfer eiddo o'r fath o ystyried bod angen iddynt gael eu gosod am o leiaf 140 o ddyddiau'r flwyddyn er mwyn bod yn fusnes dilys.

Cynigiwyd gan y Cyng Elwyn Vaughan
Cynigiwyd gan y Cyng Bryn Davies

| 12. | RHYBUDD O HYNNIG - CYFYNGIADAU CYFLYMDER MEWN TREFI BYCHAIN |
|---|---|

Datganolwyd grym dros gyfyngiadau cyflymder cenedlaethol i Gymru yn 2018.

Yn 2019, dywedodd Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford: 'Mae gan awdurdodau lleol y disgresiwn i gadw parthau 30 mya ar briffyrdd allweddol, ond y tu hwnt i hynny, ac mewn ardaloedd preswyl, gwyddom fod parthau 20mya yn lleihau cyflymder y traffig, yn lleihau damweiniau – yn enwedig damweiniau i balnt, ac rydym am weld hynny yn rhagosodiad ar hyd a lled Cymru.' Dywedodd yr AS Llafur John Griffiths fod cefnogaeth drawsbleidiol i bolisi y credai fod ganddi lawer o fanteision i gymdeithas. 'Bydd pobl hŷn yn teimlo'n hapusach os gallant gerdded ar hyd y strydoedd gyda chyfyngiadau cyflymder o 20mya mewn grym, a bydd rhieni'n teimlo'n hapusach wrth alluogi eu pobl ifanc i chwarae y tu allan.'

Ar 15 Gorffennaf eleni, pleidleisiodd y Senedd i sefydlu rhagosodiad cyflymder o 20mya mewn strydoedd preswyl, yn amodol ar ymgynghori a phenderfyniad terfynol, gyda diwrnod targed o 2023 i roi hyn ar waith.

Mae'r ddogfen ganllaw gyfredol mewn perthynas â chyfyngiadau cyflymder i'w gynnwys yn Nghylchlythyr Rhif 24/20009 Llywodraeth Cynulliad Cymru **Gosod Cyfyngiadau Cyflymder Lleol yng Nghymru**, dyddiedig Hydref 2009. Ymhlith pethau eraill, mae'n datgan *inter alia*:

- Mai sicrhau dosbarthiad 'diogel' o gyflymderau' sy'n adlewyrchu swyddogaeth y ffordd ac yn effeithio ar y gymuned leol ddylai fod yn nod sylfaenol. Dylid ystyried yn llawn anghenion defnyddwyr ffyrdd agored i niwed a chymunedau.
- Dylid ystyried cymeriad y ffordd ac anghenion y defnyddwyr ffyrdd agored i niwed yn ffactorau wrth osod cyfyngiad cyflymder.
- Rhaid ystyried yn llawn anghenion defnyddwyr ffyrdd agored i niwed er mwyn annog ymhellach eu symudedd a gwella'u diogelwch. Mae gosod cyfyngiadau cyflymder yn

elfen bwysig iawn wrth reoli diogelwch trefol, gyda manteision sylweddol i gerddwyr a beicwyr.

Cynnig:
Mae'r Cyngor yn croesawu pleidlais ddiweddar y Senedd i gyflwyno rhagosodiad cyflymder o 20mya mewn ardaloedd preswyl o 2023. Gan gydnabod bod Powys yn cynnwys nifer o drefni bychain o ddiddordeb hanesyddol eithriadol, lle mae cyflymder y traffig yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch a mwynhad trigolion ac ymwelwyr, mae'r Cyngor yn cytuno i:

1. Weithio'n gydweithredol gyda chymunedau sy'n dymuno asesu budd posibl ystyried cyfyngiad cyflymder o 20 mya yn eu hardaloedd canol tref, a os yw'n briodol, sefydlu'r cyfryw gyfyngiad.
2. Manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir yng Nghylchlythyr 24/2009, i wella diogelwch defnyddwyr ffyrdd agored i niwed ac ystyried effaith cyfyngiadau cyflymder traffig ar gymunedau.
3. Dangos a chyflwyno tystiolaeth o ystyriaeth briodol o anghenion defnyddwyr y ffyrdd ac eithrio'r rheiny mewn cerbydau modur (er enghraifft y rheiny ar droed, ar gefn ceffyl ac ar feic) a'r rheiny ag amhariad aer eu symudedd neu amddifadedd synhwyraidd wrth ddylunio a rhoi ar waith orchmynion traffig newydd.

Cynigiwyd gan y Cyng Stephen Hayes
Eiliwyd gan y Cyng Jackie Charlton

| 13. | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** |
|---|---|

13.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Mae busnesau yn y Gelli yn bositif ar y cyfan am effaith y 2 awr o barcio am ddim ar fasnach gydol mis Awst, ac mae rhai busnesau'n priodoli rhwng 20 a 30% o gynnydd ar ffigyrau y llynedd i'r ffaith fod ymwelwyr a phreswylwyr erbyn hyn yn gallu parcio'n hirach am ddim. Mae hyn wedi bod yn fenter lwyddiannus dros ben – a diolch am wneud hyn. Gyda hyn mewn golwg, a llawer o fusnesau hefyd yn dweud bod angen cymaint o help â phosibl wrth i ni symud i mewn i'r misoedd distawach, a yw CSP wedi cynnal unrhyw asesiad effaith ar y parcio am ddim i fusnesau ym Mhowys, a sut mae'r cyngor yn bwriadu ceisio cynorthwyo busnesau dros y gaeaf. Hefyd, yng ngoleuni'r adborth, a fyddai Cyngor Sir Powys yn estyn hyn o leiaf drwy'r gaeaf i roi'r gefnogaeth orau bosibl iddynt? Fe allai wneud y gwahaniaeth o ddifrif rhwng llwyddo a methu i rai busnesau yn y dref, ac mae'r cymorth yn hanfodol i sicrhau nad oes gennym drefi anghyfannedd yng nghanolbarth Cymru erbyn dechrau 2021.
(Tudalennau 87 - 88)

13.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Chludiant gan y Cynghorydd Jeremy Pugh**

Pwy, a pha adran sy'n gyfrifol am y methiant i ddarparu mygydau wyneb i'n pobl ifanc sy'n teithio ar gludiant ysgol Powys i ysgolion ac yn ôl, gan na wnaethant gyrraedd hyd sawl diwrnod yn ddiweddarach?
(Tudalennau 89 - 90)

13.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Chludiant gan y Cynghorydd Karen Laurie-Parry**

Ydw i'n gywir yn deall bod Cyngor Sir Powys yn berchen ar 10 bws sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant cyhoeddus a chwmnïau bysus yn eu rhedeg?
Wedi teithio'n ddiweddar ar fws dan gontract oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludiant cyhoeddus mewn Awdurdod arall, sylwais fod y cwmni bysus ei hun yn gallu hysbysebu ei fanylion llawn ar fws cludiant cyhoeddus yr Awdurdod hwnnw, ynghyd â hysbysebion eraill.

Rwy'n siwr bod fy nghyd Gynghorwyr Sir hefyd yn ceisio dod o hyd i ddulliau o gynhyrchu incwm i gynorthwyo'r refeniw. Oes gennym ni bolisi o godi tâl am hysbysebion ar fysus rydym yn berchen arnynt? Os nad oes, tybed a allai hynny fod yn ystyriaeth?
(Tudalennau 91 - 92)